

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:

Rheoliadau sy'n sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (o dan adran 79 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru))

Adran:

Llywodraeth Leol: Trasffurfio a Phartneriaethau

Ysgrifennydd y Cabinet / Y Weinidog sy'n gyfrifol:

Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Dyddiad dechrau:

12 Hydref 2020

Cyfeiriad e-bost cyswllt:

LGPartnerships@gov.wales

ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Cefndir

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' yn 2018, sefydlodd Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a llywodraeth leol y Gweithgor Llywodraeth Leol (y Gweithgor). Ei bwrbas oedd gweithio, drwy bartneriaeth a pharch o'r ddwy ochr, i ddatblygu agenda gyffredin ar gyfer diwygio a fyddai'n sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth gwasanaethau lleol a llywodraeth leol.

Fel rhan o'r swyddogaeth hon, adolygodd y Gweithgor y trefniadau gweithio rhanbarthol a oedd eisoes yn bodoli mewn llywodraeth leol, a'r awydd a'r blaenoriaethau ar gyfer mwy o gydweithio yn y dyfodol.

Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol argymhellion y Gweithgor. Mae'r argymhellion yn cwmpasu nifer o feysydd gan gynnwys cydwasanaethau, uno gwirfoddol, pwerau a hyblygrwydd, amrywiaeth mewn llywodraeth leol a'r agenda parch o'r ddwy ochr.

Un o brif argymhellion y Gweithgor oedd yr angen am systemau a strwythurau mwy cyson i gefnogi gweithio rhanbarthol a chydweithredu - system ar a fyddai'n cynnal atebolrwydd democrataidd ac yn sicrhau bod y trefniadau cydweithredu yn cael eu cysoni a'u symleiddio.

Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Gan fwrw ymlaen ag argymhellion y Gweithgor, mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2019) yn darparu ar gyfer fframwaith cydweithredu rhanbarthol drwy reoliadau. Bydd y fframwaith yn cefnogi ac yn annog gweithio rhanbarthol a chydweithredu drwy system fwy clir, cyson a syml, dan reolaeth ddemocrataidd: sef **Cyd-bwyllgorau Corfforedig** (CBCau). Mae CBCau yn gyrrff corfforedig ar wahân sy'n gallu cyflogi staff, dal asedau a chyllidebau ac ymgymryd â swyddogaethau.

Mae'r Bil yn caniatáu y bydd modd sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig drwy ddau dull:

- Yn ôl cais dau neu ragor o brif gynghorau (mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth y maent yn ei harfer)
- Ar archiad Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â nifer o swyddogaethau cyfyngedig a phenodedig).

Mae'n bwysig nodi bod yr asesiad effaith integredig hwn yn ymwneud â rheoliadau sy'n sefydlu CBCau ar archiad Gweinidogion Cymru yn unig.

Meysydd swyddogaethol

O ran y meysydd swyddogaethol y mae CBC yn gweithredu ynddynt, neu'n y mae'n gyfrifol amdanynt, diben y rheoliadau hyn yw breinio'r swyddogaethau canlynol mewn CBC:

- Paratoi, monitro, adolygu ac adolygu Cynllun Datblygu Strategol, yn ogystal â'r gofyniad i'r Cynlluniau hyn gydymffurfio'n gyffredinol â'r Fframwaith Datblygu

Cenedlaethol ac i'r Cynllun Datblygu Lleol 'ysgafnach' gydymffurfio'n gyffredinol â Chynllun Datblygu Strategol fel y'i nodir yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

- Swyddogaeth datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- Y swyddogaeth llesiant economaidd fel y darperir ar ei gyfer o dan Ran 5 o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), sef y pŵer i wneud unrhyw beth sy'n debygol o hyrwyddo neu wella llesiant economaidd ei ardal yn ei farn ef.

Cyd-ddatblygu

Mae'r polisi ar CBCau a datblygu'r rheoliadau sefydlu wedi'i gyd-ddatblygu â llywodraeth leol. Ymgysylltwyd â nifer o grwpiau fel rhan o hyn, gan gynnwys er enghraifft;

- Is-grwp Diwygio Llywodraeth Leol Cyngor Partneriaeth Cymru
- Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol
- Cymdeithas Trysoryddion Cymru
- Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE)

Manteision CBCau

Bydd y CBCau yn galluogi llywodraeth leol i weithredu'n fwy cyson, yn strategol, o ran llywodraethu rhanbarthol, cynllunio a darparu gwasanaethau. Bydd CBCau yn rhoi arf pwerus i'r prif gynghorau i ymateb i heriau'r dyfodol, ac yn cefnogi uchelgeisiau'r cynghorau eu hunain i wella gwasanaethau i'r cyhoedd ac i symleiddio partneriaethau.

Bydd y CBCau hefyd yn darparu mecanwaith i alluogi awdurdodau lleol i weithio'n gydweithredol ac ar raddfa i gynllunio a chyflawni'r swyddogaethau strategol allweddol y bydd eu hangen i ymateb i'r pandemig Covid-19 diweddar ac adfer yn ei sgil. Bydd y CBCau yn adeiladu ar yr ymddygiadau, yr ymrwymadau a'r cydweithredu newydd sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn; gan helpu i ddatblygu a chadarnhau'r broses o drawsnewid gwaith sefydliadol.

Bydd y CBCau yn helpu i gysoni'r gwasanaethau unigol rheng flaen a ddarperir yn y gymuned â'r camau cydweithredol a strategol sydd eu hangen ar raddfa ranbarthol i ysgogi adferiad, i ailadeiladu ac i ailfuddsoddi mewn economïau lleol modern.

Bydd y CBCau yn darparu'r cyrff cyson, teg a chynrychioliadol y mae ar Lywodraeth Cymru eu hangen – ac y mae wedi ymrwymo i'w defnyddio – i fwrw ymlaen â chydweithredu rhanbarthol strategol. Bydd y CBCau yn gyfrifol am fynd ati'n strategol i gynllunio datblygu a chynllunio trafndiaeth ranbarthol, gyda'r nod o uno'r rheini a'u cysoni o â pholisi economaidd rhanbarthol.

Bydd CBC yn cael ei drin fel aelod o'r 'teulu llywodraeth leol'. Lle y bo modd, bydd CBC yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pŵerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol, ac yn rhannu'r un math o bwerau a dyletswyddau â hwy, yn y ffordd y maent yn gweithredu. Bydd dull o'r fath yn cefnogi'r broses o integreiddio gwaith CBC â gwaith llywodraeth leol yn fwy cyffredinol.

Bydd CBCau yn cynnig i awdurdodau lleol y fantais o gael corff ag atebolrwydd democrataidd, gydag eglurder ynghylch rolau a phwrpas a'r sicrwydd sydd ei angen ar gyfer cynllunio a chyflawni strategol tymor hwy. Bydd CBC yn cynnwys nifer o brif gynghorau a bydd ardaloedd y prif gynghorau gyda'i gilydd yn ffurfio ardal ddaearyddol y CBC. Bydd CBC yn cynnwys Arweinydd y prif gynghorau cyfansoddol. Bydd CBC yn cael ei redeg gan bwyllgor o'i aelodau – a bydd y prif bwyllgor yn cynnwys arweinwyr y prif gynghorau cyfansoddol. Mae rhoi arweinwyr Awdurdodau Lleol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn rhoi cyfreithlonrwydd democrataidd i waith CBC a'i is-bwyllgorau.

Bydd CBCau yn galluogi llywodraeth leol i weithio'n rhanbarthol gyda'i randdeiliaid fel partneriaid cyfartal a bydd y CBC yn gallu sefydlu trefniadau, lle y bo'n ddymunol, i gyrff nad ydynt yn awdurdodau lleol fod yn aelodau o CBC a chael hawliau pleidleisio cyfartal. Fodd bynnag, materion i'w penderfynu'n lleol fydd y rhain. Mae model CBC a'i is-bwyllgorau yn cyfuno'r angen i gynnwys partneriaid a'r angen i sicrhau bod penderfyniadau'n gydlynol ar draws swyddogaethau ac yn cynnal cyfreithlonrwydd democrataidd.

Bydd CBC yn ddarostyngedig i'r un dyletswyddau corff cyhoeddus â phrif gyngor. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Safonau'r Gymraeg

Yn unol â'r dymuniad a fynegwyd gan lywodraeth leol, bydd y set gyntaf o CBCau yn cael ei sefydlu ar yr un patrwm daearyddol ac yn cynnwys yr un prif gynghorau ag sy'n rhan o'r trefniadau presennol ar gyfer bargeinion dinesig / bargeinion twf. Felly, bydd cyfanswm o 4; Y Gogledd, Y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain.

Wrth ystyried effaith y CBCau, mae'n bwysig nodi mai dim ond creu'r mecwnwaith ar gyfer cydweithredu y bydd y rheoliadau sy'n eu sefydlu yn ei wneud: fe'u cynlluniwyd i gynnig cymaint o hyblygrwydd â phosibl o ran sut mae CBC wedi'i strwythuro, sut mae'n llywodraethu ei hun a sut mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Mae'r dull hwn yn hanfodol er mwyn galluogi CBCau i ymateb yn effeithiol i anghenion amrywiol ac amrywiol eu cymunedau. O'r herwydd, bydd effaith gyffredinol y dull gweithredu yn amodol ar benderfyniadau unigol pob CBC ar sut y mae'n cyflawni ei swyddogaethau.

Costau ac Arbedion

Mae'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau wedi'u hasesu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau.

Mecanwaith

Pan gânt eu deddfu, bydd y rheoliadau drafft yn sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig perthnasol o dan adran 79 o bwerau'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut mae'r bobl sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cael eu cynnwys wrth ei ddatblygu?

Fel yr amlinellwyd yn adran 1, datblygwyd cynigion ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â llywodraeth leol.

Mae rheoliadau'r CBCau eu hunain wedi'u cyd-ddatblygu â llywodraeth leol drwy Is-grŵp Llywodraeth Leol Cyngor Partneriaeth Cymru yn ogystal â thrafodaethau gyda gwahanol grwpiau rhanddeiliaid gan gynnwys;

- Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol
- Cymdeithas Trysoryddion Cymru
- Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol Awdurdodau Lleol
- SOLACE
- Grwpiau Twf Rhanbarthol / Bargeinion Dinesig.

Bydd y rheoliadau drafft a'r Asesiadau Effaith cysylltiedig yn destun ymgynghoriad 12 wythnos.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Ochr yn ochr â'r costau a'r manteision a gyflwynir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft, ystyriwyd nifer o effeithiau posibl eraill ac mae asesiad integredig wedi'i gynnal. Gweler crynodeb cyffredinol o'r casgliadau isod.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi dod i'r casgliad nad yw'r rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yn effeithio'n uniongyrchol ar Erthyglau'r Cenhedloedd Unedig, ac nad ydynt ychwaith yn effeithio'n negyddol ar hawliau plant. Yn y tymor canolig, bydd alinio'r tri maes polisi o fewn CBC (cynllunio datblygu strategol, cynllunio trafndiaeth rhanbarthol a hyrwyddo a gwella llesiant economaidd) yn creu manteision cadarnhaol o ran cefnogi dull strategol o ymdrin â hygyrchedd mewn cymunedau a datblygiad economaidd cymunedau'n fwy cyffredinol.

O ran effaith bosibl sefydlu CBCau ar bobl mewn grwpiau gwarchoddedig a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, daeth yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'r casgliad y bydd y CBCau yn golygu y bydd modd alinio swyddogaethau cynllunio strategol allweddol o fewn rhanbarth. Bydd alinio'r swyddogaethau hyn ar lefel ranbarthol yn helpu i atgyfnerthu / gwella llesiant economaidd rhanbarth, gan gynyddu ffyniant a lleihau anfantais. Mae CBCau yn ei gwneud yn bosibl cynllunio gwasanaethau strategol allweddol ar raddfa a all fod yn sail i gynllunio a chyflawni'r swyddogaethau penodedig ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol a chefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol ac ymdrin â materion amddifadedd.

Bydd CBCau hefyd yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau ynddi.

Mae'r effaith ar y Gymraeg wedi cael ei harchwilio drwy Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Ni ddisgwylir y bydd sefydlu CBCau yn cael effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg nac ar gymunedau Cymraeg. Y bwriad yw gwneud CBCau yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg a chynnig cyfle i gydweithio mwy, o fewn y CBC, wrth gyflawni'r swyddogaethau penodedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith.

Daeth ystyriaeth o effaith sefydlu CBCau ar fioamrywiaeth i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith negyddol yn hynny o beth. Y bwriad yw y bydd yn ofynnol i'r CBCau gydymffurfio â'r dyletswyddau perthnasol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn yr un modd, felly, nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol o ran y dangosyddion ategol ar gyfer defnyddio adnoddau'n gynaliadwy na chynnal yr amgylchedd, gan gynnwys dim effeithiau ar ôl-troed ecolegol Cymru. Ystyriwyd nad oedd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol nac Asesiad o'r Effaith ar Gyllidebau Carbon.

Ni fydd sefydlu CBCau yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ddata personol newydd gael ei gadw na'i brosesu ac felly nid ystyriwyd bod angen asesiad o'r effaith ar Breifatrwydd. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder, o ran y cynigion ar gyfer CBCau, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a daethpwyd i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith, neu ddim effaith o gwbl, y maent yn debygol o'i chael ar y system gyfiawnder. Ni theimlid bod angen cynnal asesiad pellach o effaith y rheoliadau hyn ar gyfiawnder.

Mae'r rheoliadau sy'n sefydlu CBCau yn sefydlu mecanwaith ar gyfer cydweithredu lle bydd yn ofynnol i'r cynghorau cyfansoddol perthnasol gydweithio i gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â Chynllunio Datblygu Strategol a Chynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd CBC hefyd yn cael eu grymuso i hyrwyddo neu wella llesiant economaidd ei ardal. Er bod nifer o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol o yn deillio o sefydlu CBCau, bydd llawer o'r effeithiau uniongyrchol yn dibynnu i raddau helaeth ar y penderfyniadau a wneir gan bob CBC unigol wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod gofyniad arnom i weithio mewn ffordd wahanol; i weithredu, gan ystyried y pum ffordd o weithio a nodir yn adran 5 o'r Ddeddf ('yr egwyddor datblygu cynaliadwy'), gyda'r nod o gyflawni'r 7 nod llesiant a nodir yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n gofyn i'r gwasanaeth cyhoeddus fod yn fwy holistig wrth wneud penderfyniadau, gan ystyried pethau o safbwynt llawer ehangach a chydabod y cyd-ddibyniaethaethau sy'n bodoli a phwysigrwydd cydweithio a gweithio gyda dinasyddion.

Wrth ddatblygu mecanwaith y CBCau ar gyfer cydweithredu rhanbarthol llywodraeth leol mae pwyslais arbennig ar gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn benodol, meithrin cydnerthedd ar gyfer y tymor hir a sicrhau bod y cynigion wedi'u seilio ar gydweithio ac integreiddio amcanion o fewn llywodraeth leol.

Adlewyrchwyd hyn yn y gwaith helaeth a wnaed drwy'r Gweithgor a'r ymgysylltu arall ar lefel wleidyddol ac ar lefel swyddogion wrth lunio'r cynigion ar gyfer gwell gweithio rhanbarthol ac wrth gytuno ar fanteision datblygu mecanwaith ar gyfer gweithio rhanbarthol cyson.

Mae'r cynigion ar gyfer rhanbartholi rhai o swyddogaethau awdurdodau lleol yn adlewyrchu'r ffyrdd o weithio gan mai eu bwriad yw galluogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y tymor hwy, ac maent yn gofyn am gydweithredu a gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol. Mae'r cynigion hefyd yn cefnogi integreiddio gwasanaethau ymhellach a chyfuno adnoddau ac arbenigedd sy'n aml yn gyfyngedig, gan ddarparu mwy o gapasiti a gallu yn gyffredinol a darparu lle ar gyfer meddwl a chynllunio strategol – elfennau sydd wedi cael eu gwasgu mewn awdurdodau lleol unigol i raddau helaeth.

Yn ogystal â sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn sail i'n dull gweithredu, rydym hefyd wedi ystyried sut y gall dull rhanbarthol wneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r nodau llesiant. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod bod CBCau yn rhoi fframwaith newydd ar waith i alluogi llywodraeth leol i wneud ei gyfraniad at y nodau'n fwy effeithiol. Mae hyn yn golygu bod cyfraniad uniongyrchol CBCau at gyflawni'r nodau yn gyfyngedig, ond y bydd y cyfraniad anuniongyrchol yn llawer mwy arwyddocaol.

Mae rheoliadau'r CBCau yn rhoi strwythur ar waith a fydd, fel yn achos yr awdurdodau lleol eu hunain, yn ddarostyngedig i nifer o ddyletswyddau allweddol yn y sector cyhoeddus fel y rhai yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Cydraddoldebau 2010, Deddf Amgylchedd Cymru a Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cydnabod y bydd effaith gyffredinol CBCau yn dibynnu i raddau helaeth ar y penderfyniadau a wneir gan bob CBC unigol, ac mae'n darparu fframwaith clir ar gyfer gwneud y penderfyniadau hynny i gyfyngu neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Fel rhan o deulu llywodraeth leol, bydd CBCau yn ddarostyngedig i nifer o ofynion archwilio a byddant yn gweithredu fel rhan o drefn perfformiad a llywodraethu y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Bydd gan y swyddogaethau o ran y cynllun strategol a thrafnidiaeth hefyd fesurau perfformiad a gofynion monitro ar wahân, naill ai o fewn y rheoliadau sefydlu neu o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n cael ei throsglwyddo. Bydd hefyd yn ofynnol i'r CBCau gynhyrchu cyfrifon blynyddol.

Bydd effeithiolrwydd ac effeithiau'r CBCau, ac felly'r rheoliadau sy'n eu sefydlu, yn cael eu monitro fel rhan o'r prosesau blynyddol hyn ac, os oes angen, mae'r fframwaith yn y Bil yn caniatáu i reoliadau diwygio gael eu gwneud.

Mae'n bwysig nodi y bydd defnyddio mecanwaith y CBCau yn effeithiol yn dibynnu i raddau helaeth ar y prif gynghorau sy'n ymwneud â'r CBCau a'r penderfyniadau unigol y mae pob CBC yn eu gwneud ynghylch sut y caiff ei redeg a sut y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Mater i'r CBCau eu hunain felly fydd monitro a rheoli effeithiolrwydd ac effeithiau'r trefniadau hyn.